Tueddiadau'r Dyfodol, Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir Cenedlaethol - Cynllun Cyfunol ar gyfer 2021

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

Ffrwd waith	Cam 1 – Gosod y sylfeini Chwefror-Ebrill 2021	Cam 2 – Mireinio a gwella Mai-Awst 2021	Cam 3 – Ymgynghori a chwblhau Medi-Tachwedd 2021	Cam 4 – Canlyniadau Rhagfyr 2021
Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol	• Nodi a gwerthuso tueddiadau drwy ymchwil ddesg ac adolygu Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017 • Cyfarfod Grŵp Cynghori Technegol Tueddiadau Dyfodol Cymru (x2) • Fforymau Llesiant Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol (Chwefror) • Ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	• Datblygu ac adolygu rhestr hir o dueddiadau. Nodi sylwadau a dadansoddiadau allweddol • Grŵp Cynghori Technegol Tueddiadau Dyfodol Cymru (x2) • Ymgysylltu â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gysylltiadau ag asesiadau llesiant lleol	• Cwblhau Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 • Datblygu deunyddiau ategol, cynllunio ar gyfer gweithdai ôl-lansio a lledaenu (ee Canllaw i Bobl Ifanc, Hawdd ei Ddarllen ac ati) • Ymgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cyhoeddi ail Adroddiad statudol Tueddiadau'r Dyfodol.
Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol	Drwy'r ymarfer ymgysylltu: • Cadarnhau'r newidiadau arfaethedig i'r Dangosyddion Cenedlaethol (fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad Mesur Cynnydd Ein Cenedl yn 2019) • Gofyn am farn ar Ddangosyddion Cenedlaethol newydd posibl ar sail yr hyn a ddysgwyd o COVID-19	• Cytuno ar unrhyw ddangosyddion Cenedlaethol ychwanegol, a dechrau eu datblygu • Dechrau gweithio ar adroddiad Llesiant Cymru 2021.	• Cyhoeddi adroddiad Llesiant Cymru 2021 ym mis Medi, gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu Dangosyddion Cenedlaethol pellach	Gosod y newidiadau i'r Dangosyddion Cenedlaethol yn y Senedd.
Cerrig Milltir Llesiant Cenedlaethol	• Dechrau gwaith datblygu cychwynnol ar y Cerrig Milltir Cenedlaethol cyn ymgysylltu yng Ngham 2 • Cytuno ar y Cerrig Milltir Cenedlaethol a gyhoeddir yn 2021, ar sail ffactorau fel argaeledd data a'r gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid	• Ymgysylltu â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu a mireinio gwerthoedd drafft ar y cyd ar gyfer y Cerrig Milltir Cenedlaethol	• Lansio ymgynghoriad ar werthoedd y Cerrig Milltir Cenedlaethol ym mis Medi • Cytuno ar y gwerthoedd terfynol gyda Gweinidogion yn dilyn yr ymgynghoriad	Gosod y Cerrig Milltir Cenedlaethol cyntaf yn y Senedd.

Bydd yr holl waith yn cael ei gyflawni yn unol â'r pum ffordd o weithio, gyda chymorth gwaith ymgysylltu rheolaidd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42227